Negeseuon Allweddol Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru
Mawrth 2019

Dysgu yn sgil Ymgyrch Cassata – rhoddwyd cyflwyniad gan Fôn Roberts Ynys Môn:

- Mae dioddefwyr yn dal i dderbyn cymorth gan Barnardo's.
- Roedd dioddefwyr yn gyndyn i roi tystiolaeth
- Ni chafodd y cyflawnwr a gyhuddwyd ei ddedfrydu am gyfnod mor hir ag y tybiwyd yn wreiddiol
- Bydd y cyflawnwr yn cael ei ryddhau ymhen 6-7 mlynedd; bydd y dioddefwyr yn dal yn ifanc pan fydd yn cael ei ryddhau
- Roedd y cyflawnwr yn bersonoliaeth fawr yn y gymuned
- Mae gwersi wedi eu dysgu gan bersonél yr heddlu
- Mae gan y cyflawnwr gysylltiadau troseddol cryf ers sawl blwyddyn ac wedi cael ei gyhuddo o droseddau'n ymwneud â Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE).
- Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r ymweliadau gan yr heddlu

Archwiliadau Asiantaeth

- Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru – bydd yr adroddiad arolygu yn cael ei gyhoeddi ar 12 Ebrill 2019.
- Heddlu Gogledd Cymru – mae'r archwiliad pobl hŷn wedi ei gwblhau; yn aros am yr archwiliad amddiffyn plant; ni fydd y llu'n cael eu henwi a bydd yr adroddiad yn un generig o'r safbwynt hwn; dylai'r archwiliad ddigwydd rhwng rŵan â mis Mehefin.

Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar ymgyrch Lenten gan Meinir Williams Jones

- Achos llys pedair wythnos o hyd - dedfrydwyd dau o'r unigolion i 14 mlynedd yr un
- Mae'r Grŵp Aur wedi gofyn am ymyraethau therapiwtig ar gyfer dioddefwyr
- Roedd rhai o'r unigolion yn rhieni eu hunain
- Mae Gwasanaeth Belfast Barnardo's ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r gymuned teithwyr sydd wedi datgan nad oes achosion o CSE – mae'r Gwasanaeth yn awyddus i gynhyrchu fideo ar hyn
- Teimlai dioddefwyr y gallent fod yn fwy agored gyda staff Barnardo's ond roedd yn rhaid iddynt ddweud yn glir eu bod yn gweithio gyda'r heddlu
- Problemau gyda chredyd cynhwysol; CAB yn cynnig arweiniad a chefnogaeth
- Model Adferiad Trawma - cymerodd chwe mis i gael yr hyfforddiant hwn
- Roedd rhai o'r unigolion eisiau derbyn hyfforddiant / dod o hyd i waith
- Nid oedd un o'r unigolion wedi rhoi gwybod i unrhyw un - cawsant eu cefnogi gan Barnardo's i ddweud wrth eu partner, ond nid ydynt wedi datgelu i'w teulu yn dal

- Wrth gwblhau genogramau roedd nifer o farwolaethau – rhoddwyd cefnogaeth gyda hyn
- Yn anffodus cyflawnodd un person ifanc hunanladdiad – roedd staff cymorth yn hanfodol ar yr adeg hon. Roedd yn ddefnyddiol nad oedd y gwasanaeth yn wasanaeth 9-5 gan fod y digwyddiad hwn wedi digwydd ar ddydd Gwener ac roedd angen cefnogaeth dros y penwythnos.

Cynllun Busnes / Cofrestr Risg y Bwrdd Diogelu Plant

Bydd gan NWSB ddwy flaenoriaeth a rannir rhwng y Bwrdd Plant ac Oedolion:

i) Ecsbloetiaeth
ii) Trais domestig
iii) Cytunwyd ar flaenoriaeth unigol ar gyfer Plant – Diogelu mewn Addysg

Lluniwyd Cofrestr Risg; aelodau'r Bwrdd Diogelu Plant i roi unrhyw sylwadau adborth o fewn pythefnos.

Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Cwmni Ailsefydlu Cymunedol

Mae cwmnïau ailsefydlu cymunedol Working Links wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr; bydd eu gwaith yn cael ei drosglwyddo i Seetech. Dywedodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder eu bod wedi gweithredu i sicrhau parhad gwasanaethau prawf. Rhoddwyd sicrwydd i'r Bwrdd y byddai pob achos yn cael eu trosglwyddo'n ddiogel.

Cyngor Sir Ddinbych

Bydd archwiliad o Ddiogelu Corfforaethol Cyngor Sir Ddinbych yn cael ei gwblhau gan Lywodraeth Cymru.

NSPCC

Bydd gwasanaeth gwirio maethu'r NSPCC yn dod i ben. Mynegwyd pryder gyda Chyfarwyddwr a Phennaeth Cenedlaethol yr NSPCC.

Cyfweliadau Dychwelyd o Gartref

Mynegwyd pryderon bod rhai pobl yn credu nad oedd yr Awdurdodau Lleol yn cynnal cyfweliadau RFH ac ynghylch lefel y wybodaeth oedd yn mynd i'r heddlu. Mae darn o waith wedi ei gwblhau ar gyfer y 6 All yng Ngogledd Cymru – bydd hwn yn cael ei anfon at bob parti yr wythnos nesaf. Cytunwyd y byddai dull rhanbarthol.

Ffilmiau CSE mewn Ysgolion

Rhannwyd yr adroddiad gydag aelodau ynghylch pryderon fod fideos ar CSE nad ydynt yn briodol ar gyfer yr oedran yn cael eu dangos mewn ysgolion. Mae'r NSPCC wedi adolygu eu holl fideos; mae gan Barnardo's restr wirio y gellir ei defnyddio.

Diogelu plant a phobl ifanc mewn addysg rhag troseddau cyllyll

Rhannwyd yr adroddiad gydag aelodau; rhoddodd y grŵp ystyriaeth i gynnwys y mater hwn dan ddiogelu mewn ysgolion a bod rhywfaint o waith yn cael ei wneud gyda'r Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel.